# Y Pwyllgor Cyllid

## Cofnodion FIN (3) 14-08

**Dyddiad y cyfarfod: Dydd Iau 16 Hydref 2008**
**Amser y cyfarfod: 1.30pm - 3.30pm**
**Lleoliad y cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 1**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Angela Burns (Cadeirydd), Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro
Mohammad Asghar, Dwyrain De Cymru
Nick Bourne, Canolbarth a Gorllewin Cymru
Alun Davies, Canolbarth a Gorllewin Cymru
Ann Jones, Dyffryn Clwyd
Huw Lewis, Merthyr Tudful a Rhymni
Jenny Randerson, Canol Caerdydd
Joyce Watson, Canolbarth a Gorllewin Cymru

### Gwasanaeth y pwyllgorau

John Grimes, Clerc
Abigail Phillips, Dirprwy Glerc

### Eraill yn bresennol

**Eitem 2:**

Peter Tyndall, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

**Eitem 3:**

Paul Davies, Cadeirydd, Cyfarwyddwyr Cyllid Ymddiriedolaethau'r GIG
David Lewis, Cyfarwyddwr Cyllid, Ymddiriedolaeth GIG Cwm Taf
Nigel Stephens, Cyfarwyddwr Cyllid a Pherfformiad, Bwrdd Iechyd Lleol Tor-faen

**Eitem 4:**

Y Cynghorydd Rodney Berman, Llefarydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar Faterion Ariannol
Y Cynghorydd John Davies, Arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Steve Greenslade, Cyfarwyddwr Cyllid Cyngor Sir Fynwy a Chynghorydd Ariannol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Steve Thomas, Prif Weithredwr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

### Eitem 1: Ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Chris Franks.

### Eitem 2: Amcangyfrif Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol 2009-10

**Papur:**

FIN(3) 14-08 (p1) Amcangyfrif Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol 2009-10.

2.1 Bu'r pwyllgor yn ystyried amcangyfrifon Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol 2009-10.

### Eitem 3: Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer 2009-10: Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol

3.1 Bu'r pwyllgor yn ystyried tystiolaeth a gyflwynwyd gan Paul Davies, David Lewis a Nigel Stephens, sef Cyfarwyddwyr Cyllid y GIG, ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer 2009-10.

3.2 Cytunodd Mr Davies i ddarparu nodyn i'r pwyllgor yn egluro'r penderfyniad i ddyrannu £66.3m o gyllid cyfalaf o'r Fframwaith Buddsoddi Cyfalaf Strategol ar gyfer y Rhaglen Ymbaratoi Cymru Gyfan ar gyfer Ffliw Pandemig. Bydd Aelodau'n gofyn pam y dylai hon fod yn eitem cyfalaf a pham y bydd yn cael ei thalu o'r fframwaith 'strategol'.  Cytunodd Mr Davies i ganfod beth y mae'r ffigur hwn yn ei gynnwys a faint ohono sydd ar gyfer ddefnyddiau traul, megis brechlynnau neu fenig, a faint ohono sydd ar gyfer offer a allai fod yn 'ased'.  Cytunodd hefyd i ganfod maint y 'cyflenwad' o frechlynnau.

3.3 Dywedodd y Cadeirydd y bydd yn ysgrifennu at Mr Davies i ofyn mwy o gwestiynau nad oedd y pwyllgor wedi'u gofyn ynglŷn â

phwysau cost ac arbedion effeithlonrwydd yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol.

### Eitem 4: Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer 2009-10: Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

4.1 Bu'r pwyllgor yn ystyried tystiolaeth a gyflwynwyd gan y Cynghorydd John Davies, y Cynghorydd Rodney Berman, Steve Thomas a Steve Greenslade ynghylch cyllideb ddrafft Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer 2009-10.

4.2 Mynegodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ei phryder am gyfyngiadau ymddangosiadol y Trysorlys ar fynediad Llywodraeth Cynulliad Cymru at arian Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn. Cytunodd y Cadeirydd i ysgrifennu at y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus er mwyn iddo egluro'r mater. Dywedodd y Cadeirydd y bydd yn rhannu ymateb y Gweinidog â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

4.3 Cytunodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ysgrifennu i'r pwyllgor, yn nodi faint o arian sydd gan bob Awdurdod Lleol ym manciau Gwlad yr Iâ.

4.4 Cytunodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddarparu nodyn i'r pwyllgor yn dynodi, yn nhermau ariannol, pa effaith y gallai anawsterau ariannol byd-eang hirfaith ei chael ar y gwasanaethau a ddarperir gan Awdurdodau Lleol.

4.5 Bydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn anfon copi o'i hadroddiad ar berfformiad marchnadoedd tai dros y 30 mlynedd ddiwethaf.

**Gwasanaeth y pwyllgorau**
**Hydref 2008**